#ahealthierwales @WGHealthandCare

# A Healthier Wales: our Plan for Health and Social Care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyflymu cynnydd wrth ddarparu Gwasanaethau Iechyd Integredig ar gyfer ac yn ein cymunedau – Rhaglen Drawsnewid**

**Briffio Ymgysylltu**

**Ein gweledigaeth:** Cymru iachach drwy system integredig, gynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth, sy'n darparu gofal yn agosach at adref, gydag atal a llesiant wrth wraidd y system, sy'n diwallu anghenion newidiol ein poblogaeth.

**Pa gynnydd ydym ni wedi'i wneud?** Mae cyfeiriad ein polisi a'n strategaeth yng Nghymru wedi bod yn gryf ac yn gyson ers dros ddeng mlynedd. Bydd eu rhoi ar waith yn arwain at ganlyniadau iechyd gwell ond er bod gweithgarwch helaeth, arloesedd ac enghreifftiau o waith rhagorol wedi bod, mae'r trawsnewidiad yn parhau i fod yn anghyflawn gyda modelau sy'n canolbwyntio ar ysbytai yn dal i fodoli. Felly rydym yn sefydlu rhaglen drawsnewid i gyflymu cynnydd, gwireddu ein gweledigaeth a sicrhau'r canlynol:

- Y gall pobl a staff lywio llwybrau gofal yn hawdd.
- Bydd apwyntiadau'n brydlon ac yn briodol i'r angen, yn y lleoliad cywir.
- Bydd llesiant staff yn cael ei wella
- Bydd rheoli ac atal iechyd y boblogaeth wedi'u hymgorffori'n systematig ym mhob cyswllt.

**Pa heriau ydych chi wedi'u hwynebu?** Mae'r newid y mae angen i ni ei weithredu yn arwyddocaol iawn ac mae blaenoriaethau cystadleuol wedi bod. Nid yw gofal Sylfaenol a Chymunedol bob amser wedi bod yn flaenoriaeth ddigon uchel mewn Byrddau Iechyd. Nid yw ein fframweithiau cynllunio wedi'u halinio'n ddigon da i hwyluso cynnydd ac rydym wedi cael modelau gofal brys anghyson, timau amlddisgyblaethol heb eu defnyddio'n ddigonol a defnydd digidol araf. Mae ein rhaglen drawsnewid newydd yn ganlyniad ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gynnydd.

**Rolau a Chyfrifoldebau:** Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu polisi ac yn gosod safonau cenedlaethol sy'n dwyn Byrddau Iechyd i gyfrif; Mae Byrddau Iechyd yn asesu ac yn diwallu anghenion eu poblogaeth gan weithredu modelau gofal cenedlaethol; Mae Perfformiad a Gwella'r GIG yn cefnogi Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd i gyflawni eu cyfrifoldebau. Ein dull ni fydd gwella a thrawsnewid gwasanaethau dan arweiniad clinigol, wedi'i gyd-gynllunio â'n cymunedau a gweithio mewn partneriaeth ar draws sefydliadau a sectorau.

**Beth ydyn ni'n mynd i'w wneud?** Rydym yn mynd i adeiladu ar waith gwych y rhaglenni Gofal Sylfaenol a Gofal Brys ac uno gwaith trawsnewid o dan un fframwaith, gan ail-lunio'r Rhaglen Gofal Sylfaenol yn rhaglen drawsnewid newydd i oruchwylio'r gwaith i gyflymu'r broses o ddarparu Gwasanaethau Integredig yn ein cymunedau. Bydd Cynllun Cyflenwi yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r trawsnewidiad system hwn

mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â'r darnio presennol yn y system iechyd trwy integreiddio gofal sylfaenol a chymunedol ar bob lefel. Bydd ffocws diysgog ar iechyd y boblogaeth trwy arweinyddiaeth a chydweithio cryf ar draws y system. Mae galluogwyr allweddol ar gyfer gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned i gyflawni'r uchelgais yn cynnwys mynd i'r afael â'r heriau yn y gweithlu a'r bylchau digidol. Yn ogystal, mae cydnabyddiaeth bod cyflawni'r lefel hon o drawsnewid yn gyswllt anorfod rhwng y rhain â'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol cynaliadwy.

Bydd y **cynllun cyflenwi** yn cynnwys camau gweithredu mewn sawl maes gan gynnwys:

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**

- Newidiadau i'r fframwaith cynllunio a'r llythyrau cylch gwaith i gynnwys y disgwyliad am wasanaethau iechyd integredig yn y gymuned a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y berthynas rheoli perfformiad rhwng Perfformiad a Gwella'r GIG a Byrddau Iechyd.
- Adeiladu amcanion clir ar gyfer Prif Weithredwyr ar gyfer hyrwyddo gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned gydag atebolrwydd clir am gyflawni'r Model Gofal yn eu sefydliad
- Sicrhau bod holl gyfarwyddwyr gweithredol GIG Cymru yn cyflawni eu rôl yn llawn. Bydd hyn yn cynnwys gofal Sylfaenol ac yn y Gymuned, a bod Byrddau'n cyflawni eu cyfrifoldebau llawn yn effeithiol ar draws iechyd y cyhoedd, gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Egluro rôl a llywodraethiant clystyrau i gefnogi effaith fwy a sicrhau ymgysylltiad ac aliniad â strategaethau'r Bwrdd Iechyd
- Datblygu rhwydweithiau lleol sy'n dod â chlinigwyr gofal sylfaenol a chlinigwyr ysbytai ynghyd i gytuno ar lwybrau safonol yn seiliedig ar arferion gorau cenedlaethol.

**Trawsnewid Gwasanaethau**

*Atal a Rheoli Iechyd y Boblogaeth*

- Gwreiddio casgliadau atal (e.e. brechu, canfod pwysedd gwaed/ffibriliad atrïaidd, rhoi'r gorau i ysmygu, rheoli pwysau) mewn cysylltiadau gofal cronig a brys a chomisiynu'r rhain ar lefel clwstwr/ardal.
- Gweithredu rheolaeth iechyd y boblogaeth i nodi a chefnogi carfannau agored i niwed yn rhagweithiol, ac integreiddio hunanreoli a chynllunio gofal personol. Bydd hyn yn cynnwys dull cenedlaethol o ddefnyddio offeryn segmentu cleifion rheoli iechyd y boblogaeth.

*Rheoli Cyflyrau Cronig*

- Diffinio model safonol (swyddogaethau, canlyniadau, llwybrau) ar gyfer cyflyrau cronig (e.e. CVD, diabetes, Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint, Cyhyrysgerbydol, iechyd meddwl), a defnyddio dull dylunio cymunedol

*Gofal Brys a Gofal ar yr Un Diwrnod*

- Datblygu gwerthusiad opsiynau cyflym ar gyfer llywio gofal brys a rhoi'r opsiwn a ffefrir ar waith. Dylai hyn gynnwys y fanyleb Canolfan Gofal Sylfaenol Brys gofynnol i leihau amrywiad a llwybr cenedlaethol gydag 111.

Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys camau gweithredu ar **Alluogwyr Allweddol** gan gynnwys offer digidol a data, gweithlu a chontractau.

**Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo?**
Byddwn yn gweld gwelliannau mewn canlyniadau iechyd a boddhad cleifion. Ni fydd rhai o'r manteision hyn yn cael eu gwireddu ar unwaith ond byddwn hefyd yn gweld:

- ✓ Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Cynaliadwy
- ✓ Timau cymunedol amlddisgyblaethol wedi'u hangori mewn lleoliadau gofal cymunedol, a fydd yn integreiddio diagnosteg, adsefydlu a gofal cymdeithasol, gyda pharhad ar gyfer achosion cymhleth.
- ✓ Haenu poblogaeth gyda chynlluniau atal / cynyddu gofal wedi'u nodi ar waith.
- ✓ Llywio gwell i gleifion
- ✓ Mae arweinyddiaeth gofal sylfaenol yn llywio penderfyniadau cenedlaethol ar draws gofal wedi'i gynllunio, gofal brys, diagnosteg a digidol.
- ✓ Llesiant gwell i staff

Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar ymrwymiad pob rhan o'r system gan gydnabod bod angen newid trawsnewidiol i ddarparu gwasanaethau integredig yn agosach at ein cymunedau ar gyfer Cymru iachach.  Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth wireddu'r dyfodol disglair hwn i'n cymunedau, ein cleifion ac i'r GIG ac mae angen eich help arnom, yn gyntaf trwy lywio'r cynlluniau fel eu bod mor gryf â phosibl ac yna trwy helpu i'w gweithredu'n gyflym ac yn effeithiol.

**Sut allwch chi gyfrannu?** Byddwn yn darparu cyfleoedd i gydweithwyr ymgysylltu â'r gwaith hwn ar lefel genedlaethol a lefel y bwrdd iechyd ac i ddod â'u sgiliau a'u harbenigedd er mwyn:

- ❖ Rhoi sylwadau ar gynigion fel y gallwn gryfhau yn ôl yr angen
- ❖ Nodi cyfleoedd a heriau pellach
- ❖ Gyrru ymlaen y newidiadau sydd eu hangen.